# Categori Adeiladau ac ynni

Er nad yr adeilad lle rydyn ni'n cwrdd yw'r 'eglwys', i lawer ohonom mae ein haddoliad corfforaethol a'n gweithgareddau yn cael eu cynnal mewn adeilad(au), a'n defnydd o'r mannau hynny yw'r hyn sy'n cynhyrchu'r agwedd fwyaf sylweddol ar ein hallyriadau ynni.

Mae'r rhan fwyaf o enwadau bellach wedi pennu dyddiad targed ar gyfer cyflawni allyriadau carbon sero net, ac mae gan lywodraeth y Deyrnas Unedig dargedau o ostwng allyriadau 1990 77% erbyn 2035, a chyrraedd carbon sero net erbyn 2050. Mae'r categori hwn yn yr arolwg yn canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon o'ch adeilad(au) a'ch defnydd o ynni, a sut gallen ni ddefnyddio'r mannau hyn yn well wrth i'r hinsawdd newid.

Mae tri llwybr trwy gategori 'Adeiladau ac ynni' yr arolwg.

**Llwybr 1**: Cadeirlannau ac eglwysi sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd (o leiaf bob wythnos) ac sydd â chyflenwadau ynni a dŵr.

**Llwybr 2**: Eglwysi bach, sy'n cael eu defnyddio'n achlysurol, gan gynnwys rhai sydd heb gyflenwad ynni neu ddŵr.

**Llwybr 3**: Eglwysi sydd heb eu hadeilad eu hunain (e.e. rhai sy'n cwrdd mewn safle ar rent neu yn yr awyr agored).

**Cyfeiriwch at y** ddogfen drosolwg adeiladau ac ynni **i gael arweiniad pellach ar gwblhau'r categori yma.** (Saesneg yn unig)

**Os ydych yn printio'r ddogfen yma nodwch:**

**Llwybr 1: tudalennau 2-5**

**Llwybr 2: tudalennau 6-10**

**Llwybr 3: tudalen 11**

**Sylwch** fod y ddogfen hon er gwybodaeth ac at ddefnydd eglwysi yn unig. I wneud cais am ddyfarniad Eco Church, bydd angen i chi gopïo eich atebion i'r arolwg ar-lein ar blatfform ar-lein Eco Church (Saesneg yn unig). Gan mai tîm gweinyddol bychan sydd gennym, allwn ni ddim derbyn copïau papur o arolygon i ymgeisio am ddyfarniadau.

## Cwestiwn llwybr

1. Nodwch pa lwybr sy'n cydweddu orau *â'ch sefyllfa chi*. Dylech gynnwys yr holl adeiladau rydych chi'n berchen arnyn nhw, yn eu rheoli, neu'n eu defnyddio.

Llwybr 1: Mae ein heglwys neu ein cadeirlan yn cael ei defnyddio'n rheolaidd (o leiaf bob wythnos) ac mae ganddi gyflenwadau ynni a dŵr.

Llwybr 2: Mae ein heglwys yn cael ei defnyddio'n achlysurol (llai nag unwaith yr wythnos) ac efallai nad oes ganddi gyflenwad ynni neu ddŵr.

Llwybr 3: Nid yw ein heglwys yn berchen ar adeilad nac yn rheoli un e.e. eglwysi sy'n cwrdd ar safle sy'n cael ei rentu neu yn yr awyr agored.

## Llwybr 1: Mae ein heglwys neu ein cadeirlan yn cael ei defnyddio'n rheolaidd (o leiaf bob wythnos) ac mae ganddi gyflenwadau ynni a dŵr.

### Ymrwymiad

2. Mae ein heglwys wedi cydnabod argyfyngau'r hinsawdd a byd natur a'r anghyfiawnder sylfaenol maen nhw'n ei gynrychioli. Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed carbod o flwyddyn i flwyddyn, yn unol ag ymrwymiad ein henwad i sero net (lle bo hynny'n briodol).

Ydy / Nac ydy

### Thema 1: Mesur carbon

3. Beth yw ôl troed carbon yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn adeilad(au) eich eglwys? Mae modd mesur hyn trwy ddefnyddio offeryn carbon 360° *Climate Stewards* a dewis yr adran 'Ynni' yn unig, neu ddefnyddio ffigur net Offeryn Ôl Troed Ynni Eglwys Loegr.

Llai na 5.0 tunnell y flwyddyn

5.0 – 15.0 tunnell y flwyddyn

Mwy na 15 tunnell y flwyddyn

4. Rydyn ni wedi mesur ôl troed carbon gweithgareddau eraill yr eglwys (gan gynnwys teithio staff a chynulleidfa, bwyd, prynu a chynnal tir ac adeiladau) trwy gwblhau'r holl adrannau heblaw 'Ynni' ar offeryn carbon 360° *Climate Stewards*.

Llai na 7.5 tunnell y flwyddyn

7.5 – 20.0 tunnell y flwyddyn

Mwy nag 20.0 tunnell y flwyddyn

Heb fesur

5. Mae gan ein heglwys gynllun gweithredu sero net ar gyfer ein hadeilad(au).

Oes / Nac oes

6. Mae gan ein heglwys gynllun i adrodd am ein cynnydd tuag at garbon sero net wrth arweinyddion ein heglwys a/neu ein corff llywodraethu (Cyngor Eglwysig, Henaduriaid etc.) yn rheolaidd.

Oes / Nac oes

7. Mae ein heglwys wedi penodi hyrwyddwr neu dîm Eco Church i'n helpu i weithredu a monitro ein cynlluniau carbon sero net.

Ydy / Nac ydy

8. Mae gan ein hyrwyddwr neu ein tîm Eco Church yr hyder a'r wybodaeth i gyflawni eu rôl a/neu mae ganddyn nhw fynediad at hyfforddiant neu gefnogaeth priodol (e.e. hyfforddiant Llythrennedd Carbon).

Oes / Nac oes

## Themâu 2a a b: Yr adeilad

9. Mae ein heglwys yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw rheolaidd, sy'n cael ei gynllunio, ar ein hadeilad(au), ein to(eon) a'n gwteri, i gadw lleithder dan reolaeth, ac i atal gwres rhag cael ei golli.

Ydy / Nac ydy

10. Mae ein heglwys wedi cymryd cyngor priodol, ac wedi atal drafftiau yn ein hadeilad(au) gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

11. Mae ein heglwys wedi inswleiddio'r holl bibellau gwresogi gweladwy, etc.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

12. Mae waliau, to(eon) a lloriau ein hadeilad(au) eglwys wedi'u hinswleiddio.

Ydyn 10 / Yn rhannol 5 / Nac ydyn 0

AMH (does dim modd a/neu nid yw'n briodol inswleiddio ein hadeilad(au))

13. Mae ffenestri adeilad(au) ein heglwys yn cynnwys gwydr dwbl neu eilaidd, neu mae haen amddiffynnol wedi'i gosod arnyn nhw.

Ydyn / Yn rhannol / Nac ydyn

AMH (nid yw'n ymarferol a/neu'n briodol gwneud hynny)

14. Mae gan ein heglwys gynllun gweithredu gwydnwch hinsawdd sy'n ystyried risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd a'r camau byddwn ni'n eu cymryd i addasu i'r rhain (e.e. cynllunio ar gyfer llifogydd a/neu wres eithafol a pheryglon hinsawdd eraill sy'n dod i'r amlwg, ac ymgysylltu â'r awdurdod lleol).

Oes / Nac oes

15. Mae cyflenwad trydan ein heglwys ar dariff ynni adnewyddadwy.

Ydy – mae ein trydan ar dariff adnewyddadwy (gan gynnwys cynllun Prynu Plwyfol Eglwys Loegr, 'Green Energy Basket')

Nac ydy

AMH (does dim tariff ynni adnewyddadwy ar gael i ni)

16. Mae ein heglwys yn defnyddio goleuadau LED.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

17. Mae cyflenwad olew neu nwy ein heglwys:

yn barhaol

i ddod i ben pan ddaw oes y boeler neu'r peiriant gwresogi nwy arall i ben

heb fodoli – dydyn ni ddim yn defnyddio olew na nwy

AMH (rydyn ni'n methu newid ein cyflenwad olew neu nwy ar hyn o bryd, oherwydd bod dim opsiynau eraill ar gael i ni)

18. Mae boeler nwy neu beiriant gwresogi nwy arall ein heglwys yn un gradd A.

Ydy / Nac ydy / Dydyn ni ddim yn defnyddio nwy

19. Mae ein heglwys wedi gosod un neu fwy o Fesuryddion Clyfar i fonitro ein defnydd o ynni ac annog effeithlonrwydd.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

AMH (dyw hyn ddim yn bosibl yn ein sefyllfa ni)

20. Mae ein heglwys wedi gosod system rheoli ynni o ryw fath (e.e. dulliau rheoli gwres a golau) i'n helpu i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

AMH (fyddai hynny ddim yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon yn ein sefyllfa ni)

21. Mae ein heglwys wedi lleihau ein galw am wresogi gymaint â phosibl (e.e. trwy atebion gwresogi parthau a lleol ac ymyriadau fel gwresogi yn y seddau neu ddefnyddio padiau gwres).

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

AMH (mae angen i ni wresogi'r safle cyfan)

22. Mae ein heglwys wedi gosod pwmp gwres neu foeler trydan.

Ydy / Nac ydy

23. Mae ein heglwys wedi gosod PV solar neu system arall sy'n gallu cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Ydy / Nac ydy

AMH (dyw hyn ddim yn bosibl yn ein sefyllfa ni)

24. Mae ein heglwys wedi gosod dyfeisiau arbed dŵr (e.e. casgenni dŵr, hipos dyfrgistiau, toiledau sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon neu gasglu dŵr llwyd).

Ydy / Nac ydy

25. Mae cyflenwad dŵr ein heglwys yn cael ei fesur.

Ydy / Nac ydy

AMH (dyw hyn ddim yn bosibl yn ein sefyllfa ni)

## Thema 2c: Pobl a pholisïau

26. Mae unrhyw newidiadau arfaethedig i'n hadeilad(au) yn cymryd ein hymrwymiad Eco Church i ystyriaeth a byddan nhw'n bodloni safonau amgylcheddol uchel.

Ydyn / Nac ydyn

27. Mae gan ein heglwys gynllun gweithrediad adeilad(au) sydd â ffocws ar leiafu defnydd o ynni a mwyafu effeithlonrwydd ynni.

Oes / Nac oes

28. Mae ein heglwys yn cynllunio ar gyfer gwydnwch hinsawdd i'r dyfodol, ac mae ganddi bolisi 'mannau diogel' sy'n galluogi pobl i ddefnyddio'n hadeilad(au) mewn tywydd eithafol o boeth neu oer, a/neu fel lle i gynnal sgyrsiau am y newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau.

Ydy / Nac ydy

AMH (mae ein hadeilad(au) yn annhebygol o fod yn addas neu'n angenrheidiol)

29. Mae gan ein heglwys bolisi a/neu arfer caffael sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd (e.e. cynnyrch ynni isel, dulliau cynhyrchu cylchol).

Oes / Yn rhannol / Nac oes

30. Mae gan ein heglwys bolisi neu arfer gwastraff ac ailgylchu sy'n sicrhau bod popeth posibl yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu, fel bod cyn lleied o wastraff â phosibl yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Oes / Nac oes

31. Mae gan ein heglwys bolisi gosod sy'n rhoi blaenoriaeth i ddefnydd cynaliadwy o'n safle.

Oes / Nac oes

AMH (dydyn ni ddim yn gosod ein hadeilad(au))

32. Mae ein heglwys yn gwrthbwyso'i hôl troed carbon gweddilliol bob blwyddyn.

Ôl troed ynni yn unig

Ôl troed ynni plws teithio gan y staff a'r gynulleidfa, bwyd, prynu a chynnal a chadw tir ac adeilad(au)

Dim

## Llwybr 2: Mae ein heglwys yn cael ei defnyddio'n achlysurol (llai nag unwaith yr wythnos) ac efallai nad oes ganddi gyflenwad ynni neu ddŵr.

### Ymrwymiad

2. Mae ein heglwys wedi cydnabod argyfyngau'r hinsawdd a byd natur a'r anghyfiawnder sylfaenol maen nhw'n ei gynrychioli. Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon o flwyddyn i flwyddyn, yn unol ag ymrwymiad ein henwad i sero net (lle bo hynny'n briodol).

Ydy / Nac ydy

### Thema 1: Mesur carbon

3. Beth yw ôl troed carbon yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn adeilad(au) eich eglwys? Mae modd mesur hyn trwy ddefnyddio offeryn carbon 360° *Climate Stewards* a dewis yr adran 'Ynni' yn unig, neu ddefnyddio ffigur net Offeryn Ôl Troed Ynni Eglwys Loegr.

Llai nag 1.0 dunnell y flwyddyn

1.0 – 10.0 tunnell y flwyddyn

Mwy na 10.0 tunnell y flwyddyn

4. Rydyn ni wedi mesur ôl troed carbon gweithgareddau eraill yr eglwys (gan gynnwys teithio staff a chynulleidfa, bwyd, prynu a chynnal tir ac adeiladau) trwy gwblhau'r holl adrannau heblaw 'Ynni' ar offeryn carbon 360° *Climate Stewards*.

Llai na 5.0 tunnell y flwyddyn

5.0 – 15.0 tunnell y flwyddyn

Mwy na 15.0 tunnell y flwyddyn

Heb fesur

5. Mae gan ein heglwys gynllun gweithredu sero net ar gyfer ein hadeilad(au).

Oes / Nac oes

6. Mae gan ein heglwys gynllun i adrodd am ein cynnydd tuag at garbon sero net wrth arweinyddion ein heglwys a/neu ein corff llywodraethu (Cyngor Eglwysig, Henaduriaid etc.) yn rheolaidd.

Oes / Nac oes

7. Mae ein heglwys wedi penodi hyrwyddwr neu dîm Eco Church i'n helpu i weithredu a monitro ein cynlluniau carbon sero net.

Ydy / Nac ydy

8. Mae gan ein hyrwyddwr neu ein tîm Eco Church yr hyder a'r wybodaeth i gyflawni eu rôl a/neu mae ganddyn nhw fynediad at hyfforddiant neu gefnogaeth priodol.

Oes / Nac oes

## Themâu 2a a b: Yr adeilad

9. Mae ein heglwys yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw rheolaidd, sy'n cael ei gynllunio, ar ein hadeilad(au), ein to(eon) a'n gwteri, i gadw lleithder dan reolaeth, ac i atal gwres rhag cael ei golli.

Ydy / Nac ydy

10. Mae ein heglwys wedi cymryd cyngor priodol, ac wedi atal drafftiau yn ein hadeilad(au) gymaint ag sy'n rhesymol ymarferol.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

11. Mae ein heglwys wedi inswleiddio'r holl bibellau gwresogi gweladwy, etc.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

12. Mae waliau, to(eon) a lloriau ein hadeilad(au) eglwys wedi'u hinswleiddio.

Ydyn / Yn rhannol / Nac ydyn

AMH (does dim modd a/neu nid yw'n briodol inswleiddio ein hadeilad(au))

13. Mae ffenestri adeilad(au) ein heglwys yn cynnwys gwydr dwbl neu eilaidd, neu mae haen amddiffynnol wedi'i gosod arnyn nhw.

Ydyn / Yn rhannol / Nac ydyn

AMH (nid yw'n ymarferol a/neu'n briodol gwneud hynny)

14. Mae gan ein heglwys gynllun gweithredu gwydnwch hinsawdd sy'n ystyried risgiau cysylltiedig â'r hinsawdd a'r camau byddwn ni'n eu cymryd i addasu i'r rhain (e.e. cynllunio ar gyfer llifogydd a/neu wres eithafol a pheryglon hinsawdd eraill sy'n dod i'r amlwg, ac ymgysylltu â'r awdurdod lleol).

Oes / Nac oes

15. Mae cyflenwad trydan ein heglwys ar dariff ynni adnewyddadwy.

Ydy – mae ein trydan ar dariff adnewyddadwy (gan gynnwys cynllun Prynu Plwyfol Eglwys Loegr, 'Green Energy Basket')

Nac ydy

AMH (does dim tariff ynni adnewyddadwy ar gael i ni)

16. Mae ein heglwys yn defnyddio goleuadau LED.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

AMH (does gennym ni ddim goleuadau trydan)

17. Mae cyflenwad olew neu nwy ein heglwys:

yn barhaol

i ddod i ben pan ddaw oes y boeler neu'r peiriant gwresogi nwy arall i ben

heb fodoli – dydyn ni ddim yn defnyddio olew na nwy

AMH (rydyn ni'n methu newid ein cyflenwad olew neu nwy ar hyn o bryd)

18. Mae boeler nwy neu beiriant gwresogi nwy arall ein heglwys yn un gradd A.

Ydy / Nac ydy / Dydyn ni ddim yn defnyddio nwy

19. Mae ein heglwys wedi gosod un neu fwy o Fesuryddion Clyfar i fonitro ein defnydd o ynni ac annog effeithlonrwydd.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

AMH (dyw hyn ddim yn bosibl yn ein sefyllfa ni)

20. Mae ein heglwys wedi gosod system rheoli ynni o ryw fath (e.e. dulliau rheoli gwres a golau) i'n helpu i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

AMH (fyddai hynny ddim yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon yn ein sefyllfa ni NEU does gennym ni ddim cyflenwad ynni)

21. Mae ein heglwys wedi lleihau ein galw am wresogi gymaint â phosibl (e.e. trwy atebion gwresogi parthau a lleol ac ymyriadau fel gwresogi yn y seddau neu ddefnyddio padiau gwres).

Ydy / Yn rhannol / Nac ydy

AMH (mae angen i ni wresogi'r safle cyfan NEU does gennym ni ddim cyflenwad ynni ar gyfer gwres)

22. Mae ein heglwys wedi gosod pwmp gwres neu foeler trydan.

Ydy / Nac ydy

AMH (does gennym ni ddim cyflenwad trydan)

23. Mae ein heglwys wedi gosod PV solar neu system arall sy'n gallu cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Ydy / Nac ydy

AMH (dyw hyn ddim yn bosibl yn ein sefyllfa ni)

24. Mae ein heglwys wedi gosod dyfeisiau arbed dŵr (e.e. casgenni dŵr, hipos dyfrgistiau, toiledau sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon neu gasglu dŵr llwyd).

Ydy / Nac ydy

AMH (does gennym ni ddim cyflenwad dŵr)

25. Mae cyflenwad dŵr ein heglwys yn cael ei fesur.

Ydy / Nac ydy

AMH (dyw hyn ddim yn bosibl yn ein sefyllfa ni NEU does gennym ni ddim cyflenwad dŵr)

## Thema 2c: Pobl a pholisïau

26. Mae unrhyw newidiadau arfaethedig i'n hadeilad(au) yn cymryd ein hymrwymiad Eco Church i ystyriaeth a byddan nhw'n bodloni safonau amgylcheddol uchel.

Ydyn / Nac ydyn

27. Mae gan ein heglwys gynllun gweithrediad adeilad(au) sydd â ffocws ar leiafu defnydd o ynni a mwyafu effeithlonrwydd ynni.

Oes / Nac oes

AMH (does gennym ni ddim cyflenwad ynni)

28. Mae ein heglwys yn cynllunio ar gyfer gwydnwch hinsawdd i'r dyfodol, ac mae ganddi bolisi 'mannau diogel' sy'n galluogi pobl i ddefnyddio'n hadeilad(au) mewn tywydd eithafol o boeth neu oer, a/neu fel lle i gynnal sgyrsiau am y newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau.

Ydy / Nac ydy

AMH (mae ein hadeilad(au) yn annhebygol o fod yn addas neu'n angenrheidiol)

29. Mae gan ein heglwys bolisi a/neu arfer caffael sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd (e.e. cynnyrch ynni isel, dulliau cynhyrchu cylchol).

Oes / Yn rhannol / Nac oes

30. Mae gan ein heglwys bolisi neu arfer gwastraff ac ailgylchu sy'n sicrhau bod popeth posibl yn cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu, fel bod cyn lleied o wastraff â phosibl yn mynd i safleoedd tirlenwi.

Oes / Nac oes

31. Mae gan ein heglwys bolisi gosod sy'n rhoi blaenoriaeth i ddefnydd cynaliadwy o'n safle.

Oes / Nac oes

AMH (dydyn ni ddim yn gosod ein hadeilad(au))

32. Mae ein heglwys yn gwrthbwyso'i hôl troed carbon gweddilliol bob blwyddyn.

Ôl troed ynni yn unig

Ôl troed ynni plws teithio gan y staff a'r gynulleidf, bwyd, prynu a chynnal a chadw tir ac adeilad(au)

Dim

## Llwybr 3: Nid yw ein heglwys yn berchen ar adeilad nac yn rheoli un e.e. eglwysi sy'n cwrdd ar safle sy'n cael ei rentu neu yn yr awyr agored

### Ymrwymiad

2. Mae ein heglwys wedi cydnabod argyfyngau'r hinsawdd a byd natur a'r anghyfiawnder sylfaenol maen nhw'n ei gynrychioli. Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein hôl troed carbon o flwyddyn i flwyddyn, yn unol ag ymrwymiad ein henwad i sero net, lle bo hynny'n briodol.

Ydy / Nac ydy

### Thema 1: Mesur carbon

3. Mae ein heglwys wedi penodi hyrwyddwr neu dîm Eco Church i'n helpu i weithredu a monitro ein cynlluniau carbon sero net.

Ydy / Nac ydy

4. Mae gan ein hyrwyddwr neu ein tîm Eco Church yr hyder a'r wybodaeth i gyflawni eu rôl a/neu mae ganddyn nhw fynediad at hyfforddiant neu gefnogaeth priodol.

Oes / Nac oes

5. Rydyn ni wedi mesur ôl troed carbon gweithgareddau ein heglwys trwy lenwi'r adrannau perthnasol o offeryn carbon 360° *Climate Stewards*.

Ydyn / Nac ydyn

### Thema 2a a b: Yr adeilad

6. Mae ein heglwys yn trafod argyfwng yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol gyda pherchnogion/rheolwyr yr adeilad(au) rydyn ni'n eu defnyddio ac yn ceisio dylanwadu arnyn nhw wrth symud tuag at allyriadau carbon sero net.

Ydy / Nac ydy

AMH (dydyn ni ddim yn defnyddio adeilad)

7. Mae gan ein heglwys bolisi a/neu arfer caffael sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd (e.e. cynnyrch ynni isel, dulliau cynhyrchu cylchol).

Oes / Yn rhannol / Nac oes

8. Mae ein heglwys yn defnyddio cyn lleied â phosibl o wres, golau a dŵr yn yr adeilad(au) rydyn ni'n eu defnyddio.

Ydy / Nac ydy

AMH (dydyn ni ddim yn defnyddio adeilad/does gennym ni ddim rheolaeth ar y defnydd o wres)